**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Ebrill 11eg am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Alyn Ashworth, Robert Parkes & Medwyn Williams; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwr Gaynor Morgan Rees, Margaret Bowe & Philip Stevens.

Cyrhaeddodd y Cyng Medwyn Williams am 6.32yh.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod mis Ebrill 2017.

1. **Datgan Diddordeb Personol.**
   Cyng Medwyn Williams eitem 4.2 - personol.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 20fed 2017.**

3. **Materion yn codi: Dim**

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 01/2017/0257
Tŷ Clwyd, Erw Las, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.
Newid defnydd o adeilad ddefnydd cyflogaeth (Dosbarth B1, B2 B8) i glwb gymnasteg (Dosbarth D2).

Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod yr uned wedi bod ar gau am nifer o flynyddoedd a'i fod yn dda ar gyfer Tref Dinbych bod yr uned yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn. Cytunodd y Cyng Robert Parkes ei bod yn ddelfrydol ar gyfer y dref.

(2) 01/2017/0235
Cyffordd Lon Smithfield a Lon Llewelyn, Dinbych.

Dywedodd y Cyng Robert Parkes bod trigolion lleol wedi bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fynegi pryderon ynghylch ymbelydredd o'r mast newydd. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod yna nodiadau gyda'r cais yn ymwneud ag ymchwiliadau i ymbelydredd a'r lefelau eu cofnodi yn isel iawn. Bydd y mast newydd yn gwella cyflymder ffôn a'r rhyngrwyd yn yr ardal.

(3) 01/2017/0267
32 Ffordd Colomendy, Dinbych.
Codi estyniad ac addasiadau i'r annedd.

5. **Materion Cynllunio eraill - Dim**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.41 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………